



Polisi Atal Bwlio

Nid yw bwlio yn dderbyniol ar unrhyw adeg. Os yw'n digwydd i chi, dywedwch wrth rywun. Rwan!





Mae Ysgol O.M.Edwards yn lle hapus pan fo.....

1. pawb yn garedig wrth ei gilydd
2. pawb yn helpu ei gilydd
3. pawb yn edrych ar ol ei gilydd
4. pawb yn gwenu ar ei gilydd
5. pawb yn un teulu clos ac yn troi cefn ar unrhyw ffrae
6. pawb yn cerdded i ffwrdd ac yn anwybyddu'r bwli
7. pawb yn gwahodd eraill i chwarae
8. pawb yn trafod unrhyw broblem gyda unrhyw aelod o staff



eich dal yn bwlio...

1. Y tro cyntaf cewch rybudd.
2. Yr ail dro byddwch yn mynd i weld y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth.
3. Y trydydd tro bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'ch rhieni.
4. Os yn parhau, byddwn yn gofyn i'ch rhieni ddod i'r ysgol i drafod y mater.
5. Bydd yn rhaid i chi ymddiheuro'n llawn ac yn gyhoeddus i'r sawl rydych wedi ei fwlio.
6. Os ydy'r bwlio yn parhau, bydd yr ysgol yn cyfeirio'r mater i'r Sir.

Rhywun
sy'n
niwsans

Rhywun sy'n
galw enwau

Rhywun sy'n gwneud
bywyd yn boen

Beth ydy bwllo?

Rhywun
sy'n
cicio

Rhywun sy'n
dweud pethau
cas

Mae bwllo yn
hyll, ffiaidd a
hyll

Rhywun sy'n
tynnu gwallt

Rhywun sy'n
anwybyddu
plentyn arall

Rhywun sy'n
chwerthin neu
herio



Atal bwlio Dyma allwch chi wneud

- Cerddwch i ffwrdd
- Dywedwch wrth eich athro dosbarth ar unwaith
- Os na fedrwch wneud hyn, dywedwch wrth eich ffrind neu ffrind ffeind
- Dywedwch wrth eich rhieni

Meddyliwch.....

- Pam wnaeth o neu hi fy mwlio?
- A wnes i unrhyw beth o'i le?

Os yw'r person yn dal i'ch bwlio, ewch i ddweud wrth y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth



Beth allwch chi wneud i helpu atal bwlio?

1. Os ydych yn gwybod neu'n clywed am achos o fwlio yna cysylltwch gyda'r ysgol ar unwaith.
2. Anogwch y plant i beidio a bod yn ymosodol. Ceisiwch eu hyfforddi i droi'r foch arall. Tydy hyn ddim yn eu gwneud nhw'n 'soft'.
3. Cefnogwch yr ysgol os bydd unrhyw weithredu pellach.
4. Trafodwch broblemau eich plentyn gydag ef yn hytrach na'u cuddio.

Tu allan i oriau ysgol

Gwyddom nad cyfrifoldeb yr ysgol yw ymddygiad ein plant y tu allan i oriau'r ysgol, ond teimlwn fod ymddygiad plant yn adlewyrchiad arnom ni.

Byddwn yn trin unrhyw achos drwy fwlio sydd yn digwydd yn y gymuned

Ydych chi'n rheoli faint o deledu mae eich plentyn yn wyllo?

Ydych chi'n rheoli faint o amser mae eich plentyn yn treulio ar y cyfrifiadur?